

MEMORANDWM CYD-DDEALLTWRIAETH

RHWNG

AROLYGIAETH GOFAL IECHYD CYMRU

&

**OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS
CYMRU**

Fersiwn: 1.0
Dyddiad y cytunwyd arno: 5 Ebrill 2016

Tabl Cynnwys

Tabl Cynnwys	2
1. Cyflwyniad	4
2. Cydweithredu.....	4
3. Cydraddoldeb a Hawliau dynol.....	5
4. Diogelu data a rhyddid gwybodaeth	6
5. Y berthynas ar waith	6
6. Atgyweirio achosion unigol.....	7
7. Datrys anghydfod.....	8
8. Adolygu.....	8
9. Llofnodion	8
Atodiad A.....	9
Swyddogaeth yr Ombwdsmon	10
Atodiad B.....	11

ii. Hanes Adolygiadau a Chymeradwyaeth

Fersiwn	Dyddiad y cytunwyd arno:
1.0	5 Ebrill 2016

Dyddiad	Disgrifiad o'r broses o adolygu'r dogfennau	Diweddarwyd y ddogfen gan
12 Mai 2015	Drafft cychwynnol	Geraint Jones
24 Medi 2015	Newidiadau trac cychwynnol GIC	Darren Hatton
9 Hydref 2015	Gwelliannau OGCC yn dilyn cynnal trafodaethau	Geraint Jones
9 Mawrth 2016	Newidiadau trac AGIC a sylwadau - i gael eu trafod yng nghyfarfod diweddarau yr Ombwdsmon/AGIC	Darren Hatton
18 Mawrth 2016	Derbyniodd AGIC y newidiadau trac ar ôl cyfarfod diweddarau'r Ombwdsmon/AGIC a chyflwynwyd newidiadau trac newydd	Darren Hatton
22 Mawrth 2016	Mân newidiadau trac gan yr Ombwdsmon ac ychwanegwyd manylion cyswllt. Derbyniwyd newidiadau trac AGIC. Cymeradwywyd gan yr Ombwdsmon	Geraint Jones
24 Mawrth 2016	Derbyniodd AGIC y newidiadau trac a'r manylion cyswllt.	Darren Hatton
5 Ebrill 2016	Cymeradwyo Fersiwn 1 mewn cyfarfod rhwng Nick Bennet a Kate Chamberlain.	Darren Hatton

1. Cyflwyniad

- 1.1 Nod y Memorandwm hwn yw gosod allan y cytundeb a wnaed gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (yr Ombwdsmon) mewn perthynas â chydweithredu a chyfnewid gwybodaeth. Nid yw'r Memorandwm yn effeithio ar swyddogaethau statudol presennol y sefydliadau penodol na'r gwaith o arfer y swyddogaethau hynny; nid yw chwaith yn diwygio unrhyw bolisiau neu gytundebau eraill sy'n ymwneud â'u gweithgareddau. Nid yw'n golygu trosglwyddo unrhyw gyfrifoldeb o'r naill i'r llall, ac nid yw chwaith yn golygu eu bod yn rhannu unrhyw fath o gyfrifoldebau statudol ac eithrio mewn achosion y caniateir hyn gan y statudau.
- 1.2 Mae gan yr Ombwdsmon bwerau statudol mewn perthynas ag AGIC gan fod Llywodraeth Cymru'n awdurdod rhestredig o dan Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005. Bydd yr Ombwdsmon yn ymateb i unrhyw gŵyn am AGIC yn unol â'r Ddeddf a'i bolisiau a'i weithdrefnau ei hun. Felly, nid yw cwynion am gamau a gymerwyd gan AGIC neu sydd heb eu cymryd, neu 'r gwynion sy'n ymwneud â hi, yn cael eu heffeithio gan y Memorandwm hwn ac ymchwilir i gwynion o'r fath yn yr un modd â chwynion i'r Ombwdsmon am gyrrff eraill.
- 1.3 Nid fwriedir i'r Memorandwm hwn fod yn gyfreithiol rwymol. Er hynny, mae AGIC a'r Ombwdsmon yn cytuno i lynu wrth eu hegwyddorion a pharchu gweithgareddau ei gilydd mewn modd priodol a gweithio gyda'i gilydd er mwyn cefnogi a hyrwyddo gwelliannau mewn gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru.

2. Cydweithredu

- 2.1 Nod cyffredinol y ddau gorff yw cyfrannu at welliant parhaus yng ngwasanaethau gofal iechyd y GIG yng Nghymru, sy'n sicrhau bod y safonau perthnasol yn cael eu bodloni.
- 2.2 Mae gan y ddau gorff ddiddordeb ym mherfformiad Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau Cymru, a gall y ddau gorff gymryd rhan yn y gwaith o ystyried y gofal a ddarperir gan ddarparwyr gwasanaeth annibynnol.
- 2.3 Swyddogaeth graidd AGIC yw adolygu ac arolygu sefydliadau'r GIG a sefydliadau gofal iechyd annibynnol yng Nghymru er mwyn rhoi sicrwydd annibynnol i gleifion, y cyhoedd ac eraill fod y gwasanaethau'n ddiogel ac o ansawdd dda. Bydd AGIC yn ceisio nodi a chefnogi gwelliannau mewn

gwasanaethau a'r camau sydd eu hangen er mwyn cyflawni hyn. Os bydd angen, bydd AGIC hefyd yn cynnal adolygiadau ac ymchwiliadau arbennig os bydd yn ymddangos bod diffygion systematig wrth ddarparu gwasanaethau gofal iechyd, er mwyn sicrhau y ceir gwelliannau ac y dysgir gwersi yn ddiymdroi.

- 2.4 Mewn achos lle mae'r Ombwdsmon yn dod i'r casgliad bod person tramgwyddiedig wedi cael cam neu wedi dioddef caledi o ganlyniad i gŵyn a gafodd ei hystyried ganddo, yna fel arfer bydd yn gwneud argymhellion i fynd i'r afael a'r pryderon a nodwyd.
- 2.5 Bydd yr Ombwdsmon ac AGIC yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau bod y sefydliad a all ymdrin â'r mater yn orau yn arwain unrhyw waith cydweithredol. Mewn sefyllfa lle bydd niwed difrifol yn digwydd neu bryderon difrifol yn codi a allai arwain at niwed difrifol mewn lleoliad gofal iechyd, bydd y ddau sefydliad yn cysylltu â'i gilydd yn gynnar yn y broses er mwyn sicrhau mai un sefydliad arweiniol sydd. Bydd y ddau sefydliad yn anelu at gydlynu unrhyw waith dilynol fel bod modd mynd at y bobl a'r sefydliadau priodol er mwyn cael cefnogaeth i sicrhau gwelliannau.

3. Cydraddoldeb a Hawliau dynol

- 3.1 Mae'r angen i weithredu mewn modd sy'n gyson â Hawliau Confensiwn, fel y'u nodir yn adran 1 o Ddeddf Hawliau Dynol 1998, yn sylfaenol i waith AGIC a'r Ombwdsmon. Mae pob sefydliad yn ymdrechu i hybu hawliau dynol y sawl a gwmpasir yn ei gylch gwaith.
- 3.2 Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gwahardd trin pobl mewn modd annheg oherwydd y nodweddion gwarchoddedig sydd ganddynt ac yn helpu i sicrhau cyfleoedd cyfartal.
- 3.3 Mae cyd-lofnodwyr y Memorandwm hwn yn credu bod y trefniadau fel y'u nodwyd yn y Memorandwm yn cydymffurfio â Deddf Hawliau Dynol 1998 a Deddf Cydraddoldeb 2010.

4. Diogelu data a rhyddid gwybodaeth

- 4.1 Mae'r AGIC a'r Ombwdsmon yn ddarostyngedig i Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Deddf Diogelu Data 1998. Os bydd y naill sefydliad yn derbyn cais am wybodaeth sydd wedi dod gan y llall, bydd y sefydliad sy'n derbyn yn trafod y cais gyda'r sefydliad arall cyn ymateb.
- 4.2 Mewn achosion lle rhennir gwybodaeth bersonol, gwneir hyn yn unol â gofynion Deddf Diogelu Data 1998.

5. Y berthynas ar waith

- 5.1 Mae AGIC a'r Ombwdsmon yn ymrwymo i weithio mewn modd egwyddorol, fel y nodwyd isod:
- 5.2 Bydd y berthynas weithio rhwng AGIC a'r Ombwdsmon yn cael ei nodweddu gan gysylltiadau rheolaidd, parhaus a dulliau priodol o gyfnewid gwybodaeth yn agored rhyngddynt o fewn paramedrau eu fframweithiau cyfreithiol priodol.
- 5.3 Bydd cyfarfodydd ffurfiol yn cael eu cynnal rhwng Prif Weithredwr AGIC a'r Ombwdsmon fel y bo'r angen ond heb fod yn llai aml na phob 12 mis. Gall y Prif Weithredwr neu'r Ombwdsmon ddirprwyo'r dasg hon i'w Ddirprwy neu'i Gyfarwyddwr Ymchwiliadau yn ei dro.
- 5.4 Bydd cyfarfodydd ffurfiol i drafod materion o ddiddordeb i'r ddau sefydliad hefyd yn cael eu cynnal rhwng cynrychiolydd penodedig o bob sefydliad bob chwe mis. Bydd aelodau o staff eraill hefyd yn cysylltu â'i gilydd ar faterion o'r fath pryd bynnag y byddant yn codi.
- 5.5 Bydd yr Ombwdsmon hefyd yn enwebu cynrychiolwyr i gymryd rhan yn swyddogol mewn unrhyw ymarferion rhannu gwybodaeth berthnasol a gynhelir gan AGIC.
- 5.6 Mewn ysbryd cydweithredol mae AGIC a'r Ombwdsmon yn cytuno i:
 - Rannu gwybodaeth am dueddiadau, data, polisi a mentrau sy'n berthnasol i'r cyd-amcan o sicrhau bod defnyddwyr gwasanaeth yn derbyn gwasanaethau o ansawdd da;
 - Rhannu copïau electronig mewn modd rhagweithiol yn dilyn adolygiadau ac arolygiadau neu ymchwiliadau. Bydd anhysbysedd yn cael ei ddiogelu yn unol â pholisïau a gweithdrefnau sefydliadol;

- Ymgynghori o ran canllawiau neu adroddiadau a lunnir gan y naill gydlofnodwr sy'n cyfeirio at gyfrifoldebau neu swyddogaethau'r cyd-lofnodwr arall;
- Cydweithredu wrth ddsbarthu gwybodaeth am arfer da mewn achos lle bydd yr arfer da hwnnw yn berthnasol i brif egwyddorion y cyd-lofnodwr arall;
- Sicrhau bod ymholwyr ac achwynwyr arfaethedig neu wirioneddol yn derbyn gwybodaeth gynorthwyol a chywir am swyddogaeth y cyd-lofnodwr arall, os gallai'r wybodaeth honno fod o gymorth iddynt.
- Cydweithredu a rhannau gwybodaeth gyffredinol mewn perthynas â chwynion a phryderon o ran gofal iechyd a ddarparwyd neu a gomisiynwyd gan y GIG neu wasanaethau gofal lliniarol a drefnwyd yn breifat.

- 5.7 Fel y bo'r angen, bydd y ddau sefydliad yn rhannu manylion eu polisiau a'u gweithdrefnau mewnol.
- 5.8 Bydd y naill sefydliad yn dosbarthu datganiadau i'r wasg i'r llall (o dan embargo) er mwyn canfod sut y gellir ymdrin ag unrhyw ddiddordeb gan y cyfryngau ynghylch unrhyw bryder sy'n gyffredin rhyngddynt.
- 5.9 Bydd y naill sefydliad yn rhannu unrhyw ddatganiad i'r cyfryngau sy'n cyfeirio at y llall (o dan embargo) cyn iddo gael ei gyhoeddi er mwyn sicrhau bod y datganiad y gywir.
- 5.10 Bydd pob sefydliad yn sicrhau bod aelodau o staff yn ymwybodol o gynnwys y Memorandwm hwn a'r egwyddorion ar gyfer gweithio ar y cyd.
- 5.11 Cyfrifoldeb y Prif Weithredwr a'r Ombwdsmon fydd sicrhau bod y naill sefydliad yn deall swyddogaeth y llall a'r fframwaith statudol mae angen iddynt weithredu oddi mewn iddo.

6. Atgyweirio achosion unigol

Bydd AGIC a'r Ombwdsmon yn cyfeirio pryderon neu achosion o'r naill gydlofnodwr at y cyd-lofnodwr arall os bydd yn briodol. Er enghraifft, gallai'r Ombwdsmon gyfeirio mater at AGIC os bydd yn derbyn gwybodaeth sy'n awgrymu bod bygythiad posibl i iechyd a diogelwch un neu fwy o unigolion ac ystyrir ei bod o fudd i'r cyhoedd ddatgelu'r wybodaeth hon. Gallai AGIC gyfeirio at yr Ombwdsmon os bydd cwyn yn cael ei gwneud mewn perthynas â gwasanaeth a ddarparwyd gan gorff sydd o dan ei awdurdod a bod y

gofynion a nodir yn Neddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 yn cael eu bodloni.



7. Datrys anghydfod

Bydd yn ddau gyd-lofnodwr yn ceisio datrys unrhyw anghytundebau mewn modd cyfeillgar ar lefel weithredol. Os ni ellir datrys yr anghytundeb ar y lefel honno, yna bydd uwch reolwyr y ddau sefydliad yn gyfrifol ar y cyd am sicrhau datrysiad sy'n foddhaol i'r ddwy ochr.

8. Adolygu

Bydd y Memorandwm o Gyd-ddealltwriaeth hwn yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau fel y bo'r angen ond nid ar ôl mwy nag un flwyddyn ar ôl cael ei lofnodi a phob dwy flynedd ar ôl hynny.

9. Llofnodion

<p>Dr Kate Chamberlain</p> <p>Prif Weithredwr, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru</p>  <p>Llofnod:</p> <p>Dyddiad: 4 Ebrill 2016</p>	<p>Nick Bennett</p> <p>Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru</p>  <p>Llofnod:</p> <p>Dyddiad: 4 Ebrill 2016</p>
--	---

Atodiad A

Swyddogaethau a Chyfrifoldebau

Swyddogaeth AGIC

A1. AGIC yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru. Mae gan AGIC swyddogaethau penodol sy'n cynnwys y gallu i ystyried:

- argaeledd gofal iechyd, a mynediad ato;
- ansawdd ac effeithiolrwydd gofal iechyd;
- rheoli cyllid gofal iechyd a'r economi ac
- effeithlonrwydd ei ddarpariaeth;
- argaeledd ac ansawdd y wybodaeth a ddarperir i'r cyhoedd; ac
- yr angen i ddiogelu a hyrwyddo hawliau a lles plant.

A2. Swyddogaeth AGIC yw adolygu ac arolygu sefydliadau gofal iechyd y GIG ac annibynnol yng Nghymru i roi sicrwydd annibynnol i gleifion, y cyhoedd, Llywodraeth Cymru a darparwyr gofal iechyd bod gwasanaethau'n ddiogel ac o ansawdd da. Mae gan AGIC gyfrifoldeb penodol i sicrhau bod buddiannau pobl y mae eu hawliau wedi'u cyfyngu o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl yn cael eu diogelu'n briodol. Mae AGIC hefyd yn cyflawni swyddogaeth yr Awdurdod Goruchwyllo Lleol ar gyfer goruchwyllo bydwragedd yn statudol yng Nghymru. Mae AGIC yn cyflawni swyddogaethau ar ran Gweinidogion Cymru.

Swyddogaeth yr Ombwdsmon

Mae gan yr Ombwdsmon swyddogaeth statudol i ymchwilio i gwynion am wasanaethau cyhoeddus a darparwyr gofal iechyd a cymdeithasol annibynnol yng Nghymru. Mae hefyd yn ymchwilio i gwynion bod aelodau o gyrff llywodraeth leol wedi torri cod ymddygiad eu hawdurdod. Mae'n annibynnol ar bob corff llywodraethol. Swyddogaeth bresennol yr Ombwdsmon yw;

- Ystyried cwynion am gyrff cyhoeddus, gan gynnwys darparwyr gwasanaeth iechyd teuluol, a gwasanaethau gofal cymdeithasol neu liniarol wedi'u cyllido neu'u trefnu'n breifat.
- Ystyried cwynion bod aelodau o awdurdodau lleol wedi torri'r cod ymddygiad.
- Unioni pethau neu roi pobl yn ôl yn yr un sefyllfa y byddent wedi bod ynddi pe na baent wedi cael cam, a gweithio er mwyn sicrhau'r canlyniad gorau posibl pan fydd cam wedi digwydd.
- Gweithio gyda chyrff fel y dysgir gwersi o ymchwiliadau.
- Hybu gwelliannau parhaus yn safonau gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru drwy helpu cyrff i wneud pethau'n gywir y tro cyntaf - gweithio i leihau cwynion drwy helpu darparwyr gwasanaeth i wella eu gwaith o ran gwneud penderfyniadau.

Atodiad B

Manylion cyswllt

1. Manylion cyswllt

AGIC	Yr Ombwdsmon
<p>Cyfarwyddwr Arolygu, Rheoleiddio ac Archwilio Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru Parc Busnes Rhyd-y-car Merthyr Tudful CF48 1UZ</p> <p>Ffôn: 0300 062 8163 www.agic.org.uk</p>	<p>Prif Swyddog Gweithredu a Chyfarwyddwr Ymchwiliadau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 1 Ffordd yr Hen Gae Pencoed Pen-y-bont ar Ogwr CF35 5LJ</p> <p>Ffôn: 0300 790 0203 www.ombudsman-wales.org.uk</p>

2. Mae'r cysylltiadau a enwir rhwng AGIC a'r Ombwdsmon fel a ganlyn:

AGIC	Yr Ombwdsmon
<p>Dr Kate Chamberlain Prif Weithredwr E-bost: kathryn.chamberlain@wales.gsi.gov.uk</p>	<p>Nick Bennett Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru E-bost: nick.bennett@ombudsman- wales.org.uk</p>
<p>Rheolwyr y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth</p>	
<p>Darren Hatton Rheolwr Gwybodaeth Gorfforaethol E-bost: darren.hatton@wales.gsi.gov.uk</p>	<p>Geraint Jones Rheolwr Ymchwiliadau Cynorthwyol E-bost: Geraint.Jones@Ombudsman- Wales.org.uk</p>